

Cyngor Celfyddydau Cymru

# Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-24

Arty Parky, Parc Bedwellty, Celf ar y Blaen (llun: Ryan Davies)

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Amcanion Cydraddoldeb Strategol Cyngor Celfyddydau Cymru – Amcanion Hirdymor | 5 |
| Camau gweithredu | 8 |
| Cymhwyso'r 5 ffordd o weithio – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) | 13 |


hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Rhagair

Mae cymdeithas hael, deg a goddefgar yn gynhwysol yn reddfol ac yn gwerthfawrogi ac yn parchu creadigrwydd ei **holl** ddinasyddion. Os ydym ni eisiau i Gymru fod yn deg, yn llewyrchus ac yn hyderus, ac yn gwella ansawdd bywyd pobl yn ei holl gymunedau, yna mae'n rhaid inni wneud y dewisiadau sy'n gwneud hynny'n bosibl. Dyma nod yr Amcanion Strategol a nodir yn y ddogfen hon. Mae amrywiaeth yn cryfhau ac yn bywiogi'r celfyddydau.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn nodi cyfrifoldebau cyfreithiol penodol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gefnogi a helpu i ddatblygu ei waith ym maes cydraddoldeb. I Gyngor Celfyddydau Cymru, mae adrodd yn fwy na gofyniad cyfreithiol, mae'n sylfaenol i'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau craidd. Nodir y blaenoriaethau hyn yn ein cynllun corfforaethol, 'Er budd pawb'. Cam mawr ymlaen oedd cyhoeddi 'Er Budd Pawb'. Mae'n nodi ein huchelgeisiau a'n cynlluniau ar gyfer cynyddu nifer y bobl sy'n mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau, gan dargedu'r bobl hynny o gymunedau a chefndiroedd nad yw'r celfyddydau yng Nghymru'n eu cynrychioli'n llawn o hyd.

Ein "gweledigaeth" yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau'n ganolog i fywyd a llesiant y genedl, gan wneud ein gwlad yn lle cyffrous a bywiog i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. Mae hyn yn golygu cydnabod hawl ddiwylliannol ac anghenion creadigol yr holl unigolion a chymunedau ledled Cymru.

Mae golwg wahanol iawn ar y byd heddiw i'r olwg oedd arno pan gyhoeddasom ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017-21. Cydnabuom y pryd hwnnw bod angen newid ledled y celfyddydau yng Nghymru – gan gynnwys yng Nghyngor Celfyddydau Cymru. Ers yn rhy hir mae cyfleoedd wedi cael eu gwarafun i bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ynghyd â phobl ac artistiaid Byddar ac Anabl, i greu a chyflwyno eu celfyddyd eu hunain neu i weithio yn y celfyddydau yng Nghymru ar eu telerau eu hunain.

Dywedodd ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2019/20 wrthym, er ein bod yn gwneud cynnydd gyda'n rhaglenni a phrosiectau targededig, ein bod yn methu â chyrraedd y targedau yr oeddem wedi eu pennu i ni ein hunain ac i'r celfyddydau yng Nghymru mewn rhannau allweddol o'n gwaith.

Rydym wedi methu yn gyson â chynyddu nifer y bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau yng Nghymru oedd â hunaniaeth fyddar neu anabl neu oedd yn dod o gefndir Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r un peth yn wir o hyd am ein gweithlu ninnau. Yn yr un modd, dangosodd ein hystadegau nad yw pobl o gefndiroedd lleiafrifol yn cael eu cynrychioli ar fyrddau rheoli'r sefydliadau a ariannwn.

Yn ogystal â hynny, dywedodd ein data ariannu ar gyfer 2019/20 wrthym, o'r 173 o geisiadau a ddaeth i law oddi wrth 145 o sefydliadau unigryw i raglen arian y Loteri, dim ond 9 a gyflwynwyd gan sefydliadau a arweinir gan bobl anabl ac 8 oddi wrth sefydliadau a arweinir gan artistiaid Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd y data ar gyfer artistiaid unigol yn adrodd hanes yr un mor siomedig.

Ar ddiwedd y flwyddyn hon, Mawrth 2020, gwelwyd effaith ddigynsail a disymwth argyfwng Coronafeirws/Covid-19. Oherwydd dyfodiad sydyn y pandemig byd-eang hwn ledled y Deyrnas Unedig, mewn un noson ataliwyd pob gweithgaredd celfyddydol a newidiwyd amgylchedd byw a gweithio pawb. Safodd y sector celfyddydol a diwylliannol yn stond ac mae hyn wedi parhau ymhell i mewn i 2020/21.

Mae ymddangosiad Black Lives Matter ac ymgyrch "WeShallNotBeRemoved" yn ystod y cyfnod hwn wedi hoelio sylw ar yr hiliaeth ac abliaeth strwythurol sydd wedi bod yn gyffredin yn y celfyddydau yng Nghymru ac yn y gymdeithas yn gyfan.

Mae'r sgyrsiau rydym wedi eu cael yn ystod 2020 wedi achosi i Gyngor Celfyddydau Cymru gydnabod anghydraddoldeb strwythurol yn ein sefydliad ninnau a ledled y celfyddydau yng Nghymru. Yn benodol, rydym wedi cydnabod y boen a'r trawma mae hiliaeth ac abliaeth strwythurol yn ei achosi ac wedi cydnabod y gall pŵer a braint fod yn rhwystr difrifol i gydraddoldeb, cynrychiolaeth a chynhwysiant.

Nawr yw'r adeg ar gyfer camau brys yn erbyn hiliaeth, i sicrhau newid strwythurol a pharhaol ac am wirionedd a chymodi. Mae Cyngor y Celfyddydau'n derbyn ei gyfrifoldeb i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

Rydym wedi gwneud ymrwymiad clir i newid, a nodir yn ein datganiad Mae Bywydau Du o Bwys ac yn ein cefnogaeth i'r Saith Egwyddor Gynhwysol i'r Celfyddydau sydd wedi deillio o'r ymgyrch We Shall Not Be Removed.

https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/mae-bywydau-du-o-bwys-0

https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/gweithion-ddiogel-drwyr-coronafeirws-7-egwyddor-gynhwysol-i-sefydliadau

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau'r newid hwn.

## Amcanion Cydraddoldeb Strategol Cyngor Celfyddydau Cymru – Amcanion Hirdymor

| Amcanion hirdymor: | Pam y mae'r amcanion hyn gennym | Monitro / Gwerthuso | Pwy sy'n gyfrifol? | Canlyniadau yn y tymor hirach |
|---|---|---|---|---|
| 1. **Ymgynghori ac ymgysylltu â'n partneriaid a'r cymunedau y bwriadwn eu cyrraedd, a rhoi gwybodaeth iddynt, ac wrth wneud hynny herio a chwestiynu ein gwybodaeth a'n profiad** | Rydym wedi cydnabod trwy'r sgyrsiau rydym wedi cymryd rhan ynddynt drwy gydol 2020, pwysigrwydd gwrando ar brofiad byw'r bobl hynny sydd wedi profi anghydraddoldeb strwythurol ledled y celfyddydau yng Nghymru. Parhau i ymgysylltu â'r profiadau hynny yw'r unig ffordd y byddwn yn sicrhau newid.<br><br>Rhaid i weithio ochr yn ochr ag artistiaid, partneriaid a chymunedau, cael gwybodaeth a her ganddynt, fod yn ganolog i'n gwaith yn y dyfodol; felly hefyd bod yn agored ac yn dryloyw wrth gyfleu ein llwyddiannau, ein methiannau a'n heriau parhaus. | Byddwn yn casglu ac yn coladu gwybodaeth am drafodaethau sydd wedi digwydd a'r newidiadau sydd wedi deillio o'r trafodaethau hynny.<br><br>Byddwn yn adrodd ar effaith prosiectau a digwyddiadau penodol, ac yn eu gwerthuso, gan ganolbwyntio ar y ffyrdd mae'r rhain wedi dylanwadu ar newid mewn polisi, proses a gwaith cyflawni.<br><br>Byddwn yn gwerthuso cynnydd a'r newid sy'n dod o weithio mewn partneriaeth ac adrodd am effaith ein gwaith gan nodi amcanion penodol a manwl. | Yr Uwch Tîm Arwain sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r amcan hwn. Bydd y Tîm yn ei dro yn cael ei ddal i gyfrif gan y Pwyllgor Cydraddoldebau a bydd yn adrodd ar y cynnydd i'r Cyngor. | Byddwn yn casglu ac yn cyhoeddi tystiolaeth sy'n dangos bod ein holl waith datblygu polisïau a rhaglenni'n cael ei lywio gan yr artistiaid a'r bobl yr ydym yn ceisio gweddnewid eu profiadau o ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru.<br><br>Bydd cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig ac o gymunedau lleiafrifedig yn cael ei wneud yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu prosiectau a llunio canllawiau a'n prosesau penderfynu. |
| 2. **Datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru trwy gynyddu nifer y bobl â nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cyflogi yn y celfyddydau a'u cynrychioli yn llywodraethiant sefydliadau celfyddydol** | Rydym yn methu â sicrhau newid sylweddol wrth wneud y gweithlu a byrddau rheoli'r sefydliadau a ariannwn yng Nghyngor y Celfyddydau yntau yn fwy amrywiol. | Byddwn yn casglu ac yn dadansoddi data o arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru a ffurflenni cais a diweddu a gyflwynir gan ymgeiswyr am arian y Loteri (unigolion a sefydliadau).<br><br>Byddwn yn adolygu'r cynnydd a wneir gan sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru pob blwyddyn trwy'r Cytundebau Ariannu'r Celfyddydau a'r cynlluniau cydraddoldeb strategol a gyflwynir. Bydd yn ofynnol i sefydliadau'r Portffolio bennu targedau ac adrodd ar y cynnydd tuag at gyflawni'r rhain.<br><br>Byddwn yn casglu ac yn dadansoddi data ar ein prosesau mewnol o ran recriwtio, datblygiad proffesiynol a chamu ymlaen mewn gyrfa. Bydd y data hyn yn cael eu hadrodd i'n Pwyllgor Adnoddau Dynol a | Yr Uwch Tîm Arwain sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r amcan hwn. Bydd y Tîm yn ei dro yn cael ei ddal i gyfrif gan y Pwyllgor Cydraddoldebau a bydd yn adrodd ar y cynnydd i'r Cyngor. | Byddwn wedi dyblu canran y bobl anabl a'r bobl o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng ngweithlu'r celfyddydau.<br><br>Rydym yn darparu tystiolaeth o effaith rhaglenni rydym wedi'u cefnogi a'u cyd-greu i gynyddu nifer y bobl o gymunedau lleiafrifedig sy'n gweithio yn y celfyddydau.<br><br>Byddwn wedi treblu nifer y bobl o'r cefndiroedd hyn ar fyrddau llywodraethu. |

| Amcanion hirdymor: | Pam y mae'r amcanion hyn gennym | Monitro / Gwerthuso | Pwy sy'n gyfrifol? | Canlyniadau yn y tymor hirach |
|---|---|---|---|---|
| | | Chydnabyddiaeth Ariannol a'n Pwyllgor Cydraddoldebau, a'u hadolygu ganddynt.<br><br>Byddwn yn darparu adroddiadau monitro ar ein holl weithgarwch caffael | | |
| **3. Gweithio i ddileu bylchau cyflog ar draws y sector celfyddydol a sicrhau cyflogau teg a chyfartal i'r holl artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru** | Dengys tystiolaeth o'r sector celfyddydol a'r sector cyhoeddus ehangach bod cyflogau teg a chydraddoldeb cyflog yn dal i fod yn broblem. | Byddwn yn casglu ac yn dadansoddi data o'n systemau adnoddau dynol mewnol.<br><br>Byddwn yn darparu adroddiadau i'n Pwyllgor Cydraddoldebau ar sefyllfa cyflogau ledled y sector, yn enwedig mewn perthynas â gweithwyr ar eu liwt eu hunain.<br><br>Byddwn yn monitro cynnydd trwy arolwg Gweithwyr Proffesiynol Creadigol blynyddol a thrwy adran newydd yn arolwg PCC yn gofyn am ddata ynghylch gweithio gydag artistiaid dan gontract ac artistiaid ar eu liwt eu hunain. | Yr Uwch Tîm Arwain sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r amcan hwn. Bydd y Tîm yn ei dro yn cael ei ddal i gyfrif gan y Pwyllgor Cydraddoldebau a bydd yn adrodd ar y cynnydd i'r Cyngor. | Byddwn wedi sefydlu prosesau a chynlluniau effeithiol ar gyfer monitro bylchau cyflog a mynd i'r afael â hwy, sy'n cynnwys adrodd ar hyfforddiant a chamu ymlaen mewn gyrfa yng Nghyngor y Celfyddydau ac ar draws y sector a gefnogir gennym.<br><br>Byddwn wedi datblygu a chefnogi ymagwedd genedlaethol at gyflogau teg a chyfartal ar draws y sector, yn benodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain yn y celfyddydau. |
| **4. Cynyddu nifer yr artistiaid a sefydliadau celfyddydol amrywiol sy'n cael cyllid a chefnogaeth i greu a chyflwyno'u celfyddyd eu hunain ar eu telerau eu hunain.** | Mae'n glir, o adolygu cynnydd, bod angen newid ar bob cam o'n proses cyllido gydag arian y Loteri. Ceir anghydraddoldebau o ran y ffordd mae pobl yn cael gwybodaeth, sut maent yn cael cefnogaeth a sut caiff y cyllid ei ddosbarthu. | Byddwn yn adolygu ac yn adrodd ar geisiadau a dyfarniadau a wneir trwy ein rhaglenni a ariennir gan y Loteri a'n prosiectau strategol.<br><br>Bydd hyn yn cynnwys casglu data mewn perthynas â phobl yn arwain a chyrchu gweithgarwch celfyddydol a gwerthuso effaith prosiectau penodol ar ymgysylltiad artistiaid a chymunedau o'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig. | Yr Uwch Tîm Arwain sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r amcan hwn. Bydd y Tîm yn ei dro yn cael ei ddal i gyfrif gan y Pwyllgor Cydraddoldebau a bydd yn adrodd ar y cynnydd i'r Cyngor. | Byddwn yn gallu dangos a rhoi tystiolaeth bod ein holl raglenni cyllido'n agored ac yn hygyrch i'r holl artistiaid a sefydliadau.<br><br>Byddwn yn nodi cynnydd yn y nifer o artistiaid, sefydliadau a phrosiectau celfyddydol a gefnogir gennym sy'n adlewyrchu proffiad byw poblogaeth amrywiol Cymru.<br><br>Caiff y newid hwn ei adlewyrchu yn y prosiectau a ariennir trwy ein rhaglen Loteri a'n Portffolio Celfyddydau. |

| Amcanion hirdymor: | Pam y mae'r amcanion hyn gennym | Monitro / Gwerthuso | Pwy sy'n gyfrifol? | Canlyniadau yn y tymor hirach |
|---|---|---|---|---|
| 5. **Cynyddu amrywiaeth y rhai sy'n ymgysylltu â'r celfyddydau fel aelodau o gynulleidfaoedd a chyfranogwyr creadigol** | Mae ein tystiolaeth yn dangos, er y gwnaethpwyd cynnydd mewn rhai meysydd, mae'r celfyddydau yng Nghymru'n dal i fethu â chyrraedd rhannau sylweddol o'n cymunedau cymdeithasol a'n cymunedau daearyddol. | Byddwn yn casglu ac yn dadansoddi data o arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru a ffurflenni cais a diweddu a gyflwynir gan ymgeiswyr am arian y Loteri (unigolion a sefydliadau).Bydd hyn yn cynnwys casglu data mewn perthynas â phobl yn arwain a chyrchu gweithgarwch celfyddydol a gwerthuso effaith prosiectau penodol ar ymgysylltiad artistiaid a chymunedau o'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Byddwn yn dadansoddi ac adrodd ar ddata a gasglwyd trwy'r Asiantaeth Cynulleidfaoedd sy'n adrodd ar ymgysylltu â chynulleidfaoedd.<br><br>Byddwn yn parhau i fod yn rhan o arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys cwestiynau am y celfyddydau a diwylliant.<br><br>Yn ystod dwy flynedd gyntaf y cynllun, byddwn yn cefnogi ac yn cychwyn ymchwil ac arolygon sy'n casglu data sy'n ymwneud yn benodol ag ymgysylltu â'r celfyddydau yn ystod y pandemig Covid. Bydd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, yr Arolwg Indigo. | Yr Uwch Tîm Arwain sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r amcan hwn. Bydd y Tîm yn ei dro yn cael ei ddal i gyfrif gan y Pwyllgor Cydraddoldebau a bydd yn adrodd ar y cynnydd i'r Cyngor. | Byddwn yn rhoi tystiolaeth o gynnydd yn nifer y bobl o gymunedau lleiafrifedig a'r rhai â nodweddion gwarchodedig sy'n mynychu ac yn cyfranogi yn y celfyddydau.<br><br>Bydd y bwlch rhwng y rhai yn y sectorau cymdeithasol mwyaf cefnog a'r rhai lleiaf cefnog yn lleihau, fel cynulleidfaoedd ac fel cyfranogwyr creadigol. |

## Camau gweithredu

| Camau gweithredu 2020/21 | Arweinydd | Camau gweithredu 2021/22 | Arweinydd | Camau gweithredu Tymor Hirach | Amcan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
|---|---|---|---|---|---|
| O fewn wythnosau, sefydlu cyfres o sgyrsiau rhwng y Cyngor ac artistiaid o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig eraill, ynghyd â'n nifer fawr o gymunedau difreintiedig. Byddwn yn gwneud hyn er mwyn rhannu eu profiadau o fyw a gweithio yng Nghymru (gan sicrhau bod eu lleisiau ar flaen y gad o ran camau gweithredu dros newid yn y tymor byr a'r tymor hir).<br><br>Gweithio gyda chymunedau ym mhob rhan o Gymru i ddatblygu a chyhoeddi cynllun ymadfer o Covid-19 sydd â chydraddoldeb yn ganolog iddo ac sy'n ei wneud yn ofynnol i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru wneud yr un peth.<br><br>Uwchraddio ein Grŵp Monitro Cydraddoldeb cynghorol i Bwyllgor llawn o Gyngor y Celfyddydau, gan sicrhau bod y Cyngor ei hun yn adlewyrchu'n well y profiad byw mae ei angen i gynrychioli Cymru yn yr 21ain ganrif. | Cyfarwyddwr, Ymgysylltu â'r Celfyddydau<br><br>Uwch Tîm Arwain<br><br>Cyfarwyddwr, Ymgysylltu â'r Celfyddydau | Trefnu cynhadledd er mwyn sefydlu platfform cyhoeddus ar gyfer y trafodaethau pwysig hyn, dros wirionedd a thros gymodi.<br><br>Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda grŵp o gyrff yn y sector cyhoeddus i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb cyffredin, gan weithio gyda'n gilydd i fwrw ymlaen â newid ar draws y sector. | Cyfarwyddwr, Datblygu'r Celfyddydau/ Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus<br><br>Cyfarwyddwr, Ymgysylltu â'r Celfyddydau | Cymryd rhan mewn prosesau parhaus o ddeialog a dysgu, gan herio'n hunain a'n diwylliant sefydliadol. Gwneud y prosesau hyn yn dryloyw, cynhwysol ac wedi'u harwain gan leisiau â phrofiad byw.<br><br>Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith llwyddiannus a gyflawnwyd yn y cynllun blaenorol o ran ein polisi a phrosesau cyfathrebu. Roedd ein gwefan newydd yn gam sylweddol ymlaen, a gellir cyrchu'r holl ddogfennau PDF ar ein gwefan ar ddarllenwyr sgrin. Bydd ein cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol a'n holl wybodaeth yn y dyfodol, gan gynnwys canllawiau ariannu, yn parhau i gael eu his-deitlo yn Gymraeg a Saesneg a byddant ar gael mewn fformatau amgen, gan gynnwys BSL. | Ymgynghori ac ymgysylltu â'n partneriaid a'r cymunedau y bwriadwn eu cyrraedd, a rhoi gwybodaeth iddynt, ac wrth wneud hynny herio a chwestiynu ein gwybodaeth a'n profiad |
| Creu swydd newydd ar y staff i fod yn "Asiant dros Newid". Bydd hon yn uwch swydd yng Nghyngor y Celfyddydau â'r | Cyfarwyddwr, Ymgysylltu â'r Celfyddydau | Canfod a rhoi adnoddau ar gyfer cefnogaeth briodol i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru er mwyn | Cyfarwyddwr, Ymgysylltu â'r Celfyddydau a Chyfarwyddwr, Datblygu'r Celfyddydau | Byddwn yn newid ein dulliau o ran recriwtio, gan weithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus a'r rheiny â'r | Datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru trwy gynyddu nifer y bobl â nodweddion |

| Camau gweithredu 2020/21 | Arweinydd | Camau gweithredu 2021/22 | Arweinydd | Camau gweithredu Tymor Hirach | Amcan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
|---|---|---|---|---|---|
| mandad o ysgogi newid yn ein sefydliad. | | gwneud eu llywodraethiant, eu gweithluoedd a'u rhaglenni gweithgarwch yn fwy amrywiol, gan roi mwy o bwyslais ar gynhwysiant. | | profiad byw yr anelwn at eu denu.<br><br>Bydd hyn yn golygu adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd yr ydym yn cyflwyno'n hunain, ein proses ymgeisio a'n proses cyfweld.<br><br>Byddwn yn adolygu ac yn datblygu ein dulliau o hyfforddi a datblygu ein staff. | **gwarchodedig sy'n cael eu cyflogi yn y celfyddydau a'u cynrychioli yn llywodraethiant sefydliadau celfyddydol.** |
| Gan dynnu ar sgiliau a phrofiad Asiant dros Newid, partneriaid strategol ac unigolion, yn fewnol ac yn allanol, byddwn yn edrych yn fanwl ar y canfyddiad ohonom fel sefydliad, ac yn datblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn. Byddwn yn bwrw ymlaen â'n prentisiaethau ac yn mynd ati i recriwtio. | Cyfarwyddwr, Ymgysylltu â'r Celfyddydau | Byddwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn monitro'r ffordd y caiff cynlluniau gweithredu cydraddoldeb y sefydliadau a gyllidwn eu rhoi ar waith, a'u heffaith. Byddwn yn edrych, gyda sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, ar sut y gellid cyhoeddi'r rhain. Byddwn yn edrych ar ein dull o gasglu data oddi wrth sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, ac yn cysylltu'r gwaith hwn yn agosach â'r gwaith o fonitro eu cynlluniau gweithredu. | Rheolwr Gwerthuso ac Ymchwil | | |
| | | Byddwn yn datblygu ein cynlluniau ar gyfer rhaglen Gwneuthurwyr Newid i Gymru | Rheolwr Portffolio | | |
| | | Byddwn yn newid diwylliant ein Bwrdd trwy greu gweithgor i edrych ar sut y gallwn fod yn llai ffurfiol. | Cadeirydd a'r Uwch Dîm Rheoli | | |
| | | Byddwn yn datblygu ac yn lansio Cylch Gorchwyl newydd ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddiad a ohiriwyd, a fydd yn cynnwys cydraddoldebau fel ffocws allweddol ar gyfer newid. | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | | |
| | | Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Contract Diwylliannol a'i gwneud yn ofynnol i | Cyfarwyddwyr, Ymgysylltu â'r Celfyddydau a Datblygu'r Celfyddydau a Chyfarwyddwr Gweithrediadau | | |

| Camau gweithredu 2020/21 | Arweinydd | Camau gweithredu 2021/22 | Arweinydd | Camau gweithredu Tymor Hirach | Amcan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru ei fabwysiadu fel rhan o'u cytundeb cyllido gyda ni.<br><br>Byddwn yn ail-edrych ar ein cynlluniau i gynorthwyo BECTU i roi'r cynllun gweithredu amrywiaeth theatr ar waith fesul cam<br><br>Byddwn yn cyflwyno ein rhaglenni wedi'u targedu o amgylch datblygu'r gweithlu mewn partneriaeth â Weston Jerwood a'n gwaith gyda Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, a thrwy ein rhaglenni Ffolio a Gorwelion | <br><br>Rheolwr Portffolio<br><br>Rheolwyr Portffolio | | |
| Byddwn yn adolygu ac yn adrodd ar ein gwybodaeth am gyflogau ein hunain, gan nodi bylchau cyflog a chytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â hwy.<br><br>Byddwn yn cynnal sgyrsiau ynghylch y broses o ddatblygu cyflogau teg i artistiaid yng Nghymru.<br><br>Byddwn yn mabwysiadu dull er mwyn sicrhau bod cyfraniadau artistiaid unigol i'r broses o ddatblygu ein gwaith yn cael cydnabyddiaeth ariannol priodol. | Pennaeth Adnoddau Dynol<br><br>Cyfarwyddwr, Datblygu'r Celfyddydau<br><br>Uwch Tîm Rheoli | Byddwn yn sefydlu a gweithredu camau i fynd i'r afael â bylchau cyflog yn ein sefydliad ein hunain.<br><br>Byddwn yn datblygu a gweithredu dull mwy strwythuredig o fonitro ac adrodd ar gaffael ar draws y sefydliad, gan sicrhau mynediad teg a chyfartal i'r gwasanaethau a gontractiwn. | Pennaeth Adnoddau Dynol<br><br>Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Chydymffurfiaeth | | Gweithio i ddileu bylchau cyflog ar draws y sector celfyddydol a sicrhau cyflogau teg a chyfartal i'r holl artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru |

| Camau gweithredu 2020/21 | Arweinydd | Camau gweithredu 2021/22 | Arweinydd | Camau gweithredu Tymor Hirach | Amcan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
|---|---|---|---|---|---|
| Diwygio ein proses ceisiadau a'n meini prawf asesu ar gyfer y Loteri Genedlaethol er mwyn sicrhau bod ein cyllid yn cyrraedd ymhellach i mewn i holl gymunedau Cymru<br><br>Dysgu o lwyddiant ein cronfeydd ymateb brys Covid-19, a gyrhaeddodd ymhellach ac i amrywiaeth ehangach o bobl nag unrhyw un o'n rhaglenni blaenorol, er mwyn sicrhau mai hwn fydd y norm.<br><br>Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sefydliadau a arweinir gan artistiaid Byddar ac Anabl ac artistiaid o gefndiroedd Duon, Asiaidd ac amrywiol yn Ethnig, trwy ein rhaglen Camau Creadigol<br><br>Byddwn yn datblygu ac yn lansio maes gwaith yn rhaglen Camau Creadigol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu artistiaid unigol | Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Cyfarwyddwr, Ymgysylltu â'r Celfyddydau<br><br>Cyfarwyddwr, Ymgysylltu â'r Celfyddydau | Byddwn yn tynnu ar wybodaeth ac arbenigedd mewn meysydd eraill i edrych ar sut yr ydym yn annog ceisiadau gan sefydliadau ac unigolion mwy amrywiol a sut yr ydym yn cefnogi'r ymgeiswyr i lwyddo. Byddwn yn ystyried sut i gynnwys ystod ehangach o brofiadau yn ein gwaith penderfynu ac yn datblygu dull newydd o fonitro i ble mae ein cyllid yn mynd a'r effaith a gaiff.<br><br>Byddwn yn parhau â'n gwaith ym maes adolygu a diwygio ein dulliau ymchwil.<br><br>Byddwn yn cyflawni ein rhaglenni targededig sy'n cynnal y broses o ddatblygu artistiaid a sefydliadau celfyddydol y mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio arnynt.<br><br>Bydd y rhaglenni hyn yn cynnwys:<br><br>Camau Creadigol, Unlimited, Cydrannu, Ramps on the Moon, a Rhyngwladol. | Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Rheolwr Gwerthuso ac Ymchwil<br><br>Rheolwyr Portffolio | Byddwn yn parhau i fonitro a diwygio ein prosesau yn ôl y gofyn. | **Cynyddu nifer yr artistiaid a sefydliadau celfyddydol amrywiol sy'n cael cyllid a chefnogaeth i greu a chyflwyno'u celfyddyd eu hunain ar eu telerau eu hunain.** |
| Byddwn yn datblygu a chyhoeddi cynllun Adferiad ar Covid sydd â'r 7 Egwyddor Cynhwysol i'r Celfyddydau wedi'u gwreiddio ynddo, gan sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb, y caiff abliaeth a hiliaeth eu dileu | Prif Weithredwr | Byddwn yn adolygu effaith Covid-19 ar ein cynllun Hynt ac yn sicrhau a datblygu'r cynllun ymhellach ledled Cymru.<br><br>Byddwn yn ail-lansio ein cynllun cymunedol Noson Allan. | Rheolwr Portffolio<br><br>Pennaeth Noson Allan | | **Cynyddu amrywiaeth y rhai sy'n ymgysylltu â'r celfyddydau fel aelodau o gynulleidfaoedd a chyfranogwyr creadigol** |

| Camau gweithredu 2020/21 | Arweinydd | Camau gweithredu 2021/22 | Arweinydd | Camau gweithredu Tymor Hirach | Amcan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
|---|---|---|---|---|---|
| yn y celfyddydau ac sy'n ymgorffori cysyniadau cyd-gynhyrchu a chyd-greu.<br><br>Byddwn yn comisiynu gwaith i ymgysylltu â'r cymunedau yr ydym wedi nodi nad ydym yn eu cyrraedd ac yn cyhoeddi canlyniadau'r gwaith hwn cyn diwedd y flwyddyn. | Cyfarwyddwr, Ymgysylltu â'r Celfyddydau | Byddwn yn datblygu rhaglen i ehangu gwaith ymgysylltu ar sail canlyniadau'r gwaith a gomisiynwyd ac a gwblhawyd yn ystod blwyddyn 1 o'r cynllun hwn.<br><br>Byddwn yn cyflawni ein rhaglenni Y Celfyddydau ac Iechyd a Dysgu Creadigol yn unol â'n hamcanion corfforaethol a chyflawni'r cynllun hwn.<br><br>Byddwn yn alinio elfennau allweddol o'n Rhaglen Ryngwladol â'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.<br><br>Byddwn yn alinio amcanion ein cynllun Cydraddoldeb a'n cynllun Iaith Gymraeg er mwyn adlewyrchu'n well ein hymagwedd integredig yn unol â disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) | Rheolwr Portffolio<br><br>Rheolwr Portffolio<br><br>Rheolwr Rhaglen Dysgu Creadigol<br><br>Pennaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru<br><br>Rheolwyr Portffolio a'r Uwch Tîm Rheoli | | |

# Cymhwyso'r 5 ffordd o weithio – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

| Ffordd o weithio | Sut cafodd ei chymhwyso |
|---|---|
|  Atal | Cafodd yr amcanion eu llywio trwy ddeall y treiddgarwch i anghydraddoldeb a gafwyd yn 'A yw Cymru'n Decach' – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol, adolygiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, 2019 a gwybodaeth o'n hadroddiad blynyddol 2019-20. |
|  Hirdymor | Caiff yr amcanion lefel uchel eu hadnabod fel amcanion hirdymor a fydd yn bodoli y tu hwnt i gylch pedair blynedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r cynllun yn cydnabod bod ymrwymiad hirdymor i gyflawni'r cynllun a sicrhau adnoddau iddo yn hanfodol er mwyn ysgogi'r newid gwirioneddol y mae ei angen. |
|  Cydweithio | Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda grŵp o 11 o gyrff cyhoeddus sy'n unfryd yn eu cefnogaeth i amcanion cyffredin ac wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i fodloni'r amcanion. Mae'r cyrff partneriaethol wedi llofnodi 'memorandwm o ddealltwriaeth' sy'n nodi eu hymrwymiad i weithio cydweithredol. Trwy'r bartneriaeth hon, byddwn yn cefnogi ac yn dysgu oddi wrth ein gilydd ac yn dal ein gilydd i gyfrif. |
|  Integreiddio | Cafodd yr amcanion lefel uchel eu llywio trwy dreiddgarwch, maent yn alinio â nodau cydraddoldeb hirdymor Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu at Gymru fwy cyfartal (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) a chymdeithas decach (Deddf Cydraddoldeb, 2010). Mae cymhwyso'r pum ffordd o weithio wedi cefnogi integreiddio ar draws dyletswyddau. |
|  Cynnwys | Cafodd datblygiad hyn a chyd-gynllun y cyrff cyhoeddus eu llywio gan drafodaethau a gafwyd gyda rhanddeiliaid a rhai sy'n cael gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â phobl a chymunedau wrth ddatblygu'r cynllun a dyluniad y prosiectau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n hyrwyddo ein hamcanion. |